

Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017  
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	Gweithredu
<p><b>PRESENNOL:</b> Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Carol Bell, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Hywel John; Jessica Seaton; Michael Prior; Rachel Hughes; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Richard Bevins, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro; Diane Gwilt, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p><b>HEFYD YN BRESENNOL:</b> Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; Lesley-Anne Kerr, Pennaeth y Tîm Datblygu Amgueddfeydd, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (eitem 9 ymlaen).</p>	
<p><b>DATGAN BUDDIANNAU – Jessica Seaton mewn perthynas ag eitem 14 ar yr agenda – Adroddiad Arddangosfeydd Blynyddol – mae ei gŵr, James Seaton, yn Ymddiriedolwr gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams</b></p>	
<p><b>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</b></p> <p>1.1 Croesawyd yr aelodau a Jason Thomas i'r cyfarfod. Croesawyd Neil Wicks yn ôl i'r Amgueddfa. Croesawyd Caron Jennings, Swyddog Datblygu – Rhoddion Mawr i'r cyfarfod fel sylwedydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kay Andrews a Keshav Singhal.</p>	
<p><b>Yn Sesiwn Gaeddig y cyfarfod bu'r Bwrdd yn trafod y broses i recriwtio Llywydd newydd, Cyfarfod â'r Gweinidog, Adolygiad Thurley, Cynllunio Ariannol a Dyraniad Cyllideb 2018/19, Partneriaeth Strategol Treftadaeth Cymru, Sganio'r Gorwel, a Benthyciadau Rhyngwladol a chawsant eu briffio arnynt.</b></p> <p><b><i>Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</i></b></p>	
<p>Ar ran Llywodraeth Cymru, cofnododd Jason Thomas ei ddiolch i Elisabeth Elias am ei chyfraniad, ei hymrwymiad personol a'i chyflawniadau fel Llywydd Amgueddfa Cymru. Wrth dalu teyrnged, cydnabu Jason Thomas fod y berthynas hynod o gryf a oedd yn bodoli rhwng yr Amgueddfa a Llywodraeth Cymru yn awr yn deillio o waith Elisabeth gyda'r Uwch Dîm Rheoli.</p> <p>Cofnododd Jason Thomas ei allu i fynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol, petai hyn o gymorth. <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, a bod Jason Thomas yn cael gwybod am ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.</p> <p>Nododd Jason Thomas, o dan strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p> <p>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>Cymru fwy ffyniannus, fod Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddarparu profiad lleoliad gwaith tymor byr ar lefel uwch i Weision Sifil.</p> <p><u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr Amgueddfa a Llywodraeth Cymru'n ystyried cynnig cyfleoedd profiad gwaith uwch yn y naill sefydliad a'r llall.</p>	<p>Corfforaethol / Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu</p>
<p><b>Nid oedd unrhyw ddatganiad buddiannau.</b></p>	
<p><b>2 COFNODION</b></p> <p>2.1 <u>Penderfynwyd</u>: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017.</p>	
<p><b>3 MATERION YN CODI o gofnodion 28 Medi 2017</b></p> <p>3.1 Nid oedd unrhyw Faterion yn Codi o'r Cofnodion nad oeddent wedi'u cynnwys ar yr Agenda.</p>	
<p><b>4 GWELEDIGAETH AC AMCANION</b></p> <p>4.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi adrodd bod datganiad diwygiedig mwy cryno o Weledigaeth yr Amgueddfa wedi'i greu, yn dilyn gwaith nifer o grwpiau mewnol ac is-grŵp o'r Bwrdd. Er nad oedd y cynnwys wedi newid, roedd y pedwar ymrwymiad wedi'u symleiddio: Ffynnu, Profi, Dysgu, Cyfranogi. Byddai gwaith brandio a marchnata'r ddogfen newydd yn datgelu straeon sydd y tu ôl i'r Weledigaeth. Adlewyrchwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru yn y ddogfen ac roedd yr Amgueddfa wedi datblygu fframwaith, yn seiliedig ar ddogfen Llesiant Llywodraeth Cymru ei hun, i gofnodi ei chynnydd. Erbyn hyn roedd deg o amcanion lefel uchel yn cwmpasu'r cyfnod o bum mlynedd. Roedd drafft newydd y Weledigaeth wedi'i ystyried yn llawn yn ystod Sesiwn Drafod y noson flaenorol ac roedd y Bwrdd yn croesawu eglurder y fersiwn derfynol.</p> <p>4.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn nodi'r cynnydd a wnaed.</p>	
<p><b>5 DYRANIAD CYLLIDEB 2018/19</b></p> <p>5.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wedi adrodd bod yr Amgueddfa'n edrych ymlaen at dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru maes o law.</p> <p>5.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd y diweddariad.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p><b>6 PENODI GWEINIDOG</b></p> <p>6.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn adrodd bod yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas wedi'i benodi'n Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Llywydd wedi mwynhau cyfarfod cadarnhaol gyda'r Gweinidog a Jason Thomas, lle yr ail-gadarnhaodd yr Amgueddfa ei bwriad i fod yn uchelgeisiol yn ei chynlluniau yn y dyfodol.</p> <p>6.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr Aelodau'n croesawu penodiad y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.</p>	
<p><b>7 ADOLYGIAD THURLEY</b></p> <p>7.1 <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n llawn ar 09 Ionawr 2018 ac y byddai trafodaeth yn y Senedd ar 23 Ionawr 2018. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ymhellach, yn dilyn cyhoeddi'r Argymhellion, bod is-grŵp o'r Bwrdd wedi ei ffurfio ac roedd yr Amgueddfa yn cymryd rhan mewn cyfnod cadarnhaol o drafodaethau ynglŷn â'u gweithredu erbyn hyn.</p> <p>7.2 Roedd Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus yr Amgueddfa'n gweithio gyda Peter Owen, Pennaeth Dros Dro MALD, i ddatblygu cynllun cyfathrebu ar y cyd cyn i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi. Mynegodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei ddiolch i Ysgrifennydd y Cabinet am gomisiynu'r adroddiad, a bod yr Amgueddfa a Llywodraeth Cymru'n cytuno â'i argymhellion ac yn eu cefnogi.</p> <p>7.3 Nododd Jason Thomas mai ei flaenoriaeth ef oedd mynd i'r afael â phryderon staff, a chofnododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei gefnogaeth i'r holl argymhellion yn yr Adolygiad. Roedd yr Amgueddfa wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol: (1) ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, (2) Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Cadw, (3) cryfhau'r Uwch Dîm Rheoli ac yn benodol penodi Cyfarwyddwr Masnachol, (4) cyflwyno system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, (5) datblygu sgiliau a chyfleodd prentisiaeth yn arbennig, yn enwedig trwy Bartneriaeth Strategol Treftadaeth Cymru, lle y cydnabuwyd bod angen hyn yn y sector diwylliannol yng Nghymru.</p> <p>7.4 Cydnabu'r Bwrdd y cynnydd a wnaed eisoes a'r cysylltiadau cadarnhaol a ddatblygwyd. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen a fynegwyd yn yr Adolygiad hefyd, i'r Amgueddfa allu rheoli ei sefyllfa ariannol gyda mwy o ryddid.</p> <p>7.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd y diweddariad.</p>	
<p><b>8 PARTNERIAETH STRATEGOL TREFTADAETH CYMRU</b></p> <p>8.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn adrodd bod y bartneriaeth yn datblygu'n gadarnhaol. Roedd presenoldeb yr Undebau'n ddefnyddiol iawn yn</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>enwedig gan mai eu meysydd blaenoriaeth oedd sgiliau a hyfforddiant. Roedd y cyfraniadau a wnaed gan aelodau is-grŵp yr Amgueddfa wedi bod yn ddefnyddiol iawn hefyd.</p> <p>8.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y cynnydd yn cael ei nodi.</p>	
<p><b>9 STRATEGAETH YMCHWIL DDRAFFT</b></p> <p>9.1 Adroddodd yr Ymddiriedolwr Hywel Ceri Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Ymchwil y byddai'r cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2018. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried sut i sicrhau bod ei gyfraniad i'r Weledigaeth yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y ddogfen Strategaeth Ymchwil ddiwygiedig, a byddai mwy o ymchwil strategol o hyn ymlaen. Adroddodd y Cadeirydd ar y cynnydd o ran datblygu partneriaethau ar draws Cymru, gan gynnwys creu dogfennau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda nifer o brifysgolion.</p> <p>9.2 Nododd y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro gyda chyfrifoldeb am Ymchwil natur gadarn a chadarnhaol cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyngori ar Ymchwil, a bod y targed o gyflawni pedwar MOU gyda phrifysgolion wedi'i gyrraedd. Nododd yr Amgueddfa bwysigrwydd cydweithio strategol ac roedd yn mwynhau perthynas wahanol â phob prifysgol, yn dibynnu ar eu cylch gwaith a'u meysydd arbenigedd. Roedd hyn yn adlewyrchu natur eang gweithgareddau'r Amgueddfa. Byddai'r Amgueddfa'n bartner cyfartal mewn unrhyw geisiadau ariannu ar y cyd.</p> <p>9.3 Nododd y Llywydd fod y Pwyllgor wedi elwa ar gyfraniad pedwar aelod annibynnol a oedd yn cynrychioli gwahanol feysydd arbenigedd proffesiynol a / neu academaidd. Roedd ymchwil yn rhan annatod o'r Amgueddfa drwyddi draw. Roedd uchelgais a chyfeiriad rhyngwladol y strategaeth yn galondid i'r aelodau. Nodwyd ymhellach bwysigrwydd elfen gref ar gyfer y cyhoedd a phresenoldeb ar y we.</p> <p>9.4 Nododd Jason Thomas sut yr oedd gweithgarwch ymchwil yr Amgueddfa yn cyd-fynd yn dda â dyheadau Llywodraeth Cymru. Nododd Glenda Jones ei natur uchelgeisiol a'i gyrhaeddiad rhyngwladol, a'i fod yn pwysleisio effaith. Croesawodd yr Ymddiriedolwyr y datganiad bod 'ymchwil wrth wraidd popeth a wnawn fel Amgueddfa Genedlaethol', ac y dylid dathlu llwyddiannau'r Amgueddfa yn y maes hwn yn eang. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod creu'r strategaeth bwysig hon i Gymru wedi bod yn nod i'r Amgueddfa ers cryn amser.</p> <p>9.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y ddogfen yn cryfhau'r geiriad yn ymwneud â nodi'r gynulleidfa ar gyfer y strategaeth. Y dylid cynnwys y negeseuon allweddol yn y deunydd briffio i'r Gweinidog cyn y drafodaeth ar Adolygiad Thurley yn y Senedd ar 23 Ionawr 2018. Bod yr Amgueddfa'n ystyried ffyrdd o ddatblygu cyfathrebu allanol yn ymwneud â gweithgarwch ymchwil, gan gynnwys presenoldeb ar y we. Bod y Pwyllgor yn ystyried sut mae pob maes o weithgarwch ymchwil yn mapio yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>	<p>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro/ Pennaeth Ymchwil/ RAC</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p><b>10 EITEM YCHWANEGOL – YMDDEOLIAD Y LLYWYDD</b></p> <p>10.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd yn nodi'r angen am ddatganiad cyhoeddus ffurfiol i gyhoeddi y byddai'r Is-lywydd Carol Bell yn dod yn Llywydd yn y cyfamser cyn penodi Llywydd newydd.</p> <p>10.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus yn cysylltu â Lesley-Anne Kerr ynghylch datganiad ar y cyd.</p>	<p>Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus / Lesley-Anne Kerr</p>
<p><b>11 EITEM 10 – AMGUEDDFA CHWARAEON; ORIEL CELF GYFOES GENEDLAETHOL; STRATEGAETH AMGUEDDFEYDD CYMRU</b></p> <p>11.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod Lesley-Anne Kerr wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd. Penodwyd Just Solutions i fwrw ymlaen â'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr Amgueddfa Chwaraeon ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Ionawr i ystyried cynnydd. O ran yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol, mae Event wedi bod yn cynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn parhau i wneud hynny rhwng mis Ionawr a mis Mawrth gan gynnwys cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Disgwylir adroddiad interim ddiwedd mis Mawrth. Ni fydd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus.</p> <p>11.2 O ran Strategaeth Amgueddfeydd Cymru, roedd hyn yn cael ei ailystyried ar hyn o bryd fel y gallai adlewyrchu'r sector treftadaeth a diwylliannol ehangach yn well, gan gynnwys sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru a Chymdeithas yr Amgueddfeydd. Roedd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus yn gweithio gyda MALD i wireddu hyn. Bydd ymgynghoriad yn cychwyn ym mis Ionawr. Mae argymhellion yr holl adroddiadau cysylltiedig a gynhyrchwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cael eu dwyn ynghyd i lywio'r strategaeth newydd.</p> <p>11.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac os yw Ymddiriedolwyr am gyfrannu'n bersonol at yr ymgynghoriad ar Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol, y dylent gysylltu â Lesley-Anne Kerr yn uniongyrchol.</p>	<p>Ymddiriedolwyr</p>
<p><b>12 EITEM 11 – PROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN - NEWYDDION DIWEDDARAF</b></p> <p>12.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>12.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr Ymddiriedolwyr wedi nodi cynnydd o ran y Cynllun Gweithgareddau. Roedd 12,000 o ddisgyblion ysgol ac athrawon wedi defnyddio Canolfan Ddysgu newydd Weston ers ei hagor ym mis Gorffennaf – traean yn uwch na'r targed. Byddai'r orielau'n cael eu hagor ym mis Hydref 2018. Nodwyd y llwyddiannau wrth godi £550,000 o arian a chawsant groeso cynnes. Mynychodd gyfarfod ar y safle ar 7 Rhagfyr 2017, ac roeddent yn falch o gael taith drwy'r orielau a nodi cynnydd. Byddai rhan olaf y project ailddatblygu, sef gwerthuso, yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2019. Roedd</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>yr Amgueddfa wrthi'n trafodaeth dyddiad y grant olaf gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri.</p> <p>12.3 Llongyfarchodd yr Ymddiriedolwr Victoria Provis, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu, yr Amgueddfa ar lwyddiannau codi arian diweddar, yn arbennig y cinio codi arian ym mis Hydref. Yr Is-iarll Windsor lywyddodd y digwyddiad ac yn ystod ei anerchiad fe wnaeth gynnwys neges gan Iarll Plymouth. Dangosodd ei gefnogaeth hirdymor i Sain Ffagan hefyd. Sbardunodd y digwyddiad nifer o roddion unigol sylweddol. Llongyfarchwyd yr Adran Ddatblygu a'r staff yn Sain Ffagan.</p> <p>12.4 Nododd Ymddiriedolwyr y byddai amgueddfa Sain Ffagan yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn 2018.</p> <p>12.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddarau ar weithgareddau codi arian pellach ac aliniadau cost y gyllideb ym mis Mawrth 2018.</p>	<p>Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu</p>
<p><b>13 EITEM 12 – CASGLIADAU AC YMCHWIL – ADRODDIAD CHWE MISOL</b></p> <p>13.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro.</p> <p>13.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod Casgliadau Ar-lein yr Amgueddfa'n fyw bellach gyda 500,000 o gofnodion wedi'u cynnwys. Nodwyd yr adroddiad am ei rôl eiriolaeth.</p> <p>13.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hannog i gyflwyno sylwadau ar wefan Casgliadau Ar-lein. Bod yr Amgueddfa'n ystyried ffyrdd o gysylltu'r effeithiau sydd wedi'u cofnodi yn yr adroddiad hwn yn ôl i'r Strategaeth Ymchwil. Bod yr adroddiad yn cael ei anfon at aelodau allanol y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil.</p>	<p>Ymddiriedolwyr / Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro</p>
<p><b>14 EITEM 13 – CASGLIADAU AC YMCHWIL – MEINI PRAWF AR GYFER BENTHYCA GWEITHIAU CELF</b></p> <p>14.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro.</p> <p>14.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn rhestru'r meini prawf y dylai'r Amgueddfa eu defnyddio wrth gytuno neu wrthod benthyca gweithiau celf. Roedd y broses yn cynnwys gofyn am gyngor gan y Grŵp Cynghori ar Gelf cyn gofyn i'r Bwrdd roi cymeradwyaeth ffurfiol i'r argymhellion. Croesawodd yr Ymddiriedolwyr y dull cam wrth gam a byddai'n adnodd buddiol i'r Grŵp Cynghori ar Gelf.</p> <p>14.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y meini prawf.</p>	<p>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro</p>
<p><b>15 EITEM 14 – ADRODDIAD ARDDANGOSFEYDD BLYNYDDOL</b></p> <p>15.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>Ymwelwyr.</p> <p>15.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn nodi gweithgarwch o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017, a phrojectau yn y dyfodol. Nododd yr adroddiad sut yr oedd gweithgareddau'r Amgueddfa'n adlewyrchu agendâu Llywodraeth Cymru. Roedd gweithgarwch cynhyrchu incwm wedi'i gynnwys.</p> <p>15.3 Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y Gronfa Gelf wedi gohebu â'r Amgueddfa mewn perthynas ag arddangosfa <i>Penderfyniad Pwy?</i> Roeddent am ei chynnwys yn eu Hadolygiad o'r Flwyddyn, ac maent wedi annog yr Amgueddfa i wneud cais am eu gwobr flynyddol. Amlygodd yr arddangosfa gryfder casgliad Ymddiriedolaeth Derek Williams hefyd, a pherthynas yr Amgueddfa gyda The Wallich. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cyfryngau a sefydliadau eraill wedi bod yn archwilio'r gwaith partneriaeth gwerthfawr a gyflawnwyd ar gyfer cleientiaid The Wallich.</p> <p>15.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys targedau a matricesau ochr yn ochr, a chanlyniadau gwerthuso. Bod Ymddiriedolaeth Derek Williams yn cael gwybod am y llwyddiant a nodwyd yn 15.3 uchod.</p>	<p>Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr</p>
<p><b>16 EITEM 15 – ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</b></p> <p>16.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>16.2 <u>Adroddwyd</u>: Ychydig iawn o eithriadau oedd i'w hadrodd , ac roedd y rhai'n ymwneud ag Adnoddau Dynol am resymau dealladwy. Mae'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn ogystal â Gweithrediaeth yr Amgueddfa yn monitro gweithgarwch ac yn cefnogi staff. Nododd y Bwrdd fod y lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn uchel, a bod camau'n cael eu cymryd i nodi ac ymateb i'r materion a godwyd. Nododd yr Ymddiriedolwyr fod yr asesiad effaith economaidd gan Brifysgol Caerdydd wedi cofnodi bod Gwerth Ychwanegol Gros yn £83 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16, ac roedd yr effaith net ar economi Cymru bedair gwaith y buddsoddiad. Roedd y canlyniadau codi arian ar gyfer y cyfnod yn well nag a ddangosir yn yr adroddiad. Roedd cwmni Mentrau yn rhagweld blwyddyn bositif iawn o'u blaenau.</p> <p>16.3 Nododd yr Ymddiriedolwyr y lefelau isel o weithgarwch dysgu a datblygu ar gyfer staff ond nad oedd y rhain yn adlewyrchu'r hyfforddiant amrywiol a ddarperir / a gyflawnir gan y staff yn llawn.</p> <p>16.4 Nododd y Llywydd y sefyllfa ariannol bresennol, a gofynnodd y Bwrdd i Lesley-Anne Kerr ddiolch i Croeso Cymru am eu cefnogaeth yn y cyfryngau wrth hyrwyddo arddangosfa <i>Deinosoriaid yn Deor</i>.</p> <p>16.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys matricesau i ddangos +/- graddol mewn chwarter / cronus. Bod y cyflwyniad ar gael ar Allrwyd yr Ymddiriedolwyr.</p>	<p>Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p><b>17 EITEM 16 – CYFRIFON STATUDOL BLYNYDDOL 2016/17</b></p> <p>17.1 <u>Adroddwyd</u>: Dywedodd y Trysorydd bod y cyfrifon wedi'u cynhyrchu a bod y Bwrdd wedi dirprwyo'r awdurdod i'w cymeradwyo i gyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Fe'u cymeradwywyd yn eu cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2017 a chawsant dystysgrif archwilio ddiamod gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae copi ar gael ar wefan yr Amgueddfa.</p> <p>17.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p><b>18 EITEM 17 – LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A'R FFRAMWAITH SAFONAU – NODYN ATGOFFA BLYNYDDOL</b></p> <p>18.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>18.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hatgoffa o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau allweddol. Bod newidiadau i'r Rheoliadau a Chylch Gorchwyl y Bwrdd Datblygu i'w diwygio.</p> <p>18.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod Rheoliad 7.1 sy'n ymwneud â'r cworwm ar gyfer trafodion busnes y Pwyllgor yn cael ei ddiwygio fel y nodwyd, a bod Cylch Gorchwyl y Bwrdd Datblygu'n cael ei ddiwygio fel y nodwyd.</p>	Ysgrifennydd yr Amgueddfa
<p><b>19 EITEM 18 – ADRODDIAD PERCHNOGION BLYNYDDOL BIG PIT AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU</b></p> <p>19.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Bennaeth yr Amgueddfa – Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.</p> <p>19.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru o fewn categori pwll glo gweithredol ac felly'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Mwyngloddio ac ymyriadau rheolaidd (arolygiadau) gan yr Arolygwyr Mwyngloddio. Rhan o'r arfer da a nodwyd gan yr ymyriadau hyn yw cyfathrebu rheolaidd a thryloyw rhwng gweithrediadau Big Pit ei hun a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fel y Perchnogion a Gweithredwyr y Pwll Glo. Er mwyn cydymffurfio â hyn a rhoi sicrwydd i Berchnogion a Gweithredwyr y Pwll Glo bod y gwaith o weithredu'r pwll yn cael ei wneud i'r safonau lechyd a Diogelwch disgwylidig. Mae Adroddiad lechyd a Diogelwch blynyddol Big Pit wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Felly mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â gweithrediad y pwll.</p> <p>19.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p><b>20 EITEM 19 – DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIO – RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL</b></p> <p>20.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth TG.</p>	



Nodiadau	Gweithredu
<p>20.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn diweddarau'r Bwrdd ynghylch pa mor barod yw'r Amgueddfa ar gyfer cyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018.</p> <p>20.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chadarnhau'r sefyllfa gyda'r Cyfeillion a'u cynnydd, fel sefydliad a gyfansoddwyd ar wahân.</p>	<p>Cyfarwyddwr Datblygu Oriellau a Phrofiad Ymwelwyr</p>
<p><b>21 EITEM 20 – COFNODION DRAFFT CYFARFODYDD AMRYWIOL</b></p> <p>21.1 <u>Derbyniwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>21.1.1 Grŵp Cyngori ar Gelf 2 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.2 Grŵp Cyngori ar Ymchwil 14 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.3 Ymddiriedolwyr Pensiwn 14 Medi 2017 ac 16 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.4 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 14 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.5 Pwyllgor Archwilio 15 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.6 Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 30 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.7 Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau 30 Tachwedd 2017</li> <li>21.1.8 Cyfarfod rhwng cynrychiolydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Undebau 2 Hydref 2017</li> </ul> <p>21.2 <u>Adroddwyd</u>:</p> <p>21.2.1 <b>Grŵp Cyngori ar Gelf</b> – Adroddodd y Llywydd fod yr Ymddiriedolwr Michael Prior wedi'i benodi i'r Grŵp Cyngori ar Gelf ac yn mynychu cyfarfodydd Ymddiriedolaeth Derek Williams hefyd.</p> <p>21.2.2 <b>Pwyllgor Cyngori ar Ymchwil</b> – Bod yr Amgueddfa'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd mewn perthynas ag MA mewn Astudiaethau Treftadaeth, a'i bod yn bwysig nodi a hyrwyddo llwyddiannau.</p> <p>21.2.3 <b>Ymddiriedolwyr Pensiwn</b> – Adroddodd y Cadeirydd fod y sefyllfa bresennol yn foddhaol.</p> <p>21.2.4 <b>Sain Ffagan</b> – Nododd y Cadeirydd fod yna sicrwydd o'r gost yn awr, bod popeth ar y trywydd iawn i'w gwblhau a bod y sefyllfa ariannol yn cael ei rheoli'n ofalus. Byddai'r Cadeirydd yn diweddarau'r Bwrdd ynghylch ffioedd proffesiynol yn y dyfodol.</p> <p>21.2.5 <b>Cyfarfod â'r Undebau</b> – Adroddodd yr Ymddiriedolwr Glenda Jones fod y cyfarfod ar 2 Hydref 2017 wedi rhoi cyfle iddi wrando ar farn aelodau'r Undebau. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Gareth Howells, y Swyddog Negodi ar gyfer Undeb Prospect yn bresennol. Nid oedd cynrychiolydd o undeb PCS. Nid oedd gan y cyfarfod agenda ac ni thrafodwyd unrhyw fusnes swyddogol a fyddai'n cael ei ystyried yn rhywle arall. Roedd y cyfarfod yn gyfeillgar, yn agored ac yn onest. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n cynnal cyfarfodydd tebyg ac mae'r Undebau'n cyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Cymru hefyd. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys datblygu sgiliau, a chyfathrebu, yn enwedig cyswllt rhwng aelodau'r Undebau ac Ymddiriedolwyr. Sicrhaodd Glenda Jones yr Undebau fod yr</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>Ymddiriedolwyr yn trin a thrafod y materion ac yn mynd ati i gefnogi safleoedd yr Amgueddfa. Nododd y cyfarfod werth y Cyfarfoddd Briffio Chwarterol yn dilyn cyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir gan aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Hefyd, trafodwyd yr angen i sicrhau bod y Cynllun Gweithredol a'r Weledigaeth yn cael eu rhannu, bod bwletin wythnosol / bob pythefnos yn cael ei gynhyrchu, a bod yr Uwch Dîm Rheoli'n dosbarthu nodyn briffio i'r holl staff yn dilyn pob un o'u cyfarfodydd.</p> <p>21.2.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y rheolwyr yn hysbysu eu staff bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal.</p>	<p>Uwch Dîm Rheoli</p>
<p><b>22 UNRHYW FATER ARALL</b></p> <p>22.1 <b>Eisteddfod</b> – Bod yr Ymddiriedolwr Hywel Ceri Jones wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwaith cynllunio a phartneriaeth sy'n cael ei wneud wrth baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018.</p> <p>22.2 <b>Materion ymddiriedolwyr</b> – Bod y Llywydd yn cofnodi bod y Bwrdd wedi cytuno yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod y byddai'n rhaid gweithredu cymal (6) o'r Statudau yn y Siarter Brenhinol a fyddai'n caniatáu ymestyn cyfnod yr Ymddiriedolwr Victoria Provis yn y swydd er mwyn iddi allu parhau i gyfrannu at y gwaith o godi arian ar gyfer Sain Ffagan, fel Cadeirydd y Bwrdd Datblygu. Penodiad gan yr Amgueddfa oedd Victoria Provis a hysbyswyd Llywodraeth Cymru. O dan gymal (6) o'r Siarter Brenhinol, byddai'r Amgueddfa yn gofyn am ganiatâd y Comisiwn Elusennau i dalu cyflog am swydd y Llywydd.</p> <p>22.3 <b>Elisabeth Elias</b> – Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn dymuno, ar ran y Bwrdd a'r staff, cofnodi ei ddiolch a'i werthfawrogiad diffuant yn ffurfiol am y gwaith a'r gefnogaeth y mae Elisabeth Elias wedi'u rhoi yn ystod ei chyfnod fel Ymddiriedolwr ac fel Llywydd. Byddai teyrngedau pellach yn cael eu rhoi yn ystod y cinio a gynhaliwyd i'w hanrhydeddu yn dilyn y cyfarfod hwn. Diolchodd Elisabeth Elias i bawb am eu cefnogaeth a llongyfarchodd yr holl staff a'i chydymddiriedolwyr am eu holl waith caled, ac am bopeth a oedd wedi'i gyflawni.</p>	
<p><u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cychwyn am 9am ar 15 Mawrth 2018 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	